Ministry of Justice

**Yr Arglwydd Timpson**
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd Bwrdd Monitro Annibynnol
CEF Caerdydd
Heol Knox
Caerdydd
CF24 0UG

**Cyfeirnod y Weinyddiaeth Gyfiawnder:** SUB123152

2 Mehefin 2025

Annwyl Gadeirydd,

**CEF CAERDYDD: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MEDI 2023 – 31 AWST 2024**

Diolch am gyflwyno adroddiad blynyddol eich Bwrdd am CEF Caerdydd. Rwyf wedi darllen eich adroddiad yn drylwyr ac yn diolch i chi a'ch cydweithwyr am eich ymroddiad cyson a'r gwaith caled sydd wedi'i wneud i roi eich sylwadau defnyddiol, yn enwedig a chithau wedi bod yn gweithredu â llai o aelodau ar y bwrdd na'r nifer a argymhellir.

Roeddwn yn hynod o drist o ddarllen am farwolaeth carcharor yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Rwy'n deall ei bod hi'n ymddangos mai'r carcharor ei hun a achosodd ei farwolaeth. Mae digwyddiadau o'r fath yn drasig tu hwnt, a hoffwn sicrhau'r Bwrdd a'r rheini sydd mewn profedigaeth bod pob marwolaeth yn y ddalfa'n cael ei thrin yn gwbl o ddifrif. Bydd camau wastad yn cael eu cymryd i ymateb i'r argymhellion a wneir gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bwrdd yn cydnabod y gefnogaeth a roddwyd i'r teulu, ac rwyf hefyd wedi nodi ymdrechion y carchar i barhau i leihau nifer y marwolaethau sydd wedi'u cofnodi yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rwy'n deall yn llwyr bryderon y Bwrdd am orlenwi a'r effaith y mae hyn wedi'i chael yn CEF Caerdydd. Gall y Bwrdd fod yn dawel ei feddwl, cyn rhoi llety i'w rannu, fod yn rhaid i Gyfarwyddwr Grŵp Carchardai asesu bod y llety hwnnw o faint a chyflwr digonol, a'i fod yn cyrraedd safonau penodol sy'n sicrhau bod carcharorion yn cael eu lletya'n ddiogel. Ar 12 Gorffennaf 2024, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor gyfres o gamau a geisiai fynd i'r afael â phroblemau gyda chapasiti carchardai, ac a geisiai atal y system cyfiawnder troseddol rhag cael ei llethu'n llwyr.

Ymhellach, ar 11 Rhagfyr 2024, cyflwynwyd ein cynllun hirdymor ar gyfer capasiti carchardai drwy gyhoeddi'r Strategaeth Capasiti Carchardai, a fydd yn para 10 mlynedd. Mae'r strategaeth hon yn dangos ein cynlluniau i ddarparu 20,000 o lefydd ychwanegol mewn carchardai, ac i greu ystâd garchardai gydnerth. Bydd hynny'n cynnwys adeiladu pedwar carchar newydd ynghyd ag ehangu ac adnewyddu ystâd bresennol y carchardai. Er nad yw hyn yn mynd i'r afael â'r gorlenwi a welir yr ennyd hon, a'r problemau sy'n gysylltiedig â rhannu celloedd yn CEF Caerdydd, mae'r strategaeth yn dangos ein hymrwymiad i wella'r ystâd gyffredinol a'i chyfeiriad yn y dyfodol.

Gan droi at elfennau cadarnhaol eich adroddiad, cefais fy nghalonogi o ddarllen bod y Llywodraethwr a'r uwch dîm rheoli yn weladwy, a bod perthnasau cadarnhaol rhwng y staff a'r carcharorion yn sail i ddiwylliant o ddangos parch. Roeddwn yn falch o weld bod amser y tu allan i'r gell i wneud gweithgareddau pwrpasol yn cael ei roi'n fwy cyson nag mewn carchardai tebyg, a bod sawl cynllun i hybu'r cysylltiadau rhwng cyflogwyr a charcharorion – dyma waith rwyf yn angerddol iawn yn ei gylch. Roedd hi'n galonogol darllen hefyd am y cysylltiadau cryf ag elusennau ac am waith y tîm cefnogi teuluoedd ac Invisible Walls. Rwy'n croesawu hefyd y ffaith bod y carchar wedi cael arolwg cadarnhaol ar y cyfan gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi.

**T** +4420 3334 3555
**Ff** +44870 761 7753

**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj

102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Rwy’n nodi eich bod wedi codi rhai materion lleol sy’n achosi pryder yn eich adroddiad. Bydd y Llywodraethwr yn parhau i roi gwybod i chi am y cynnydd a wneir wrth i waith gael ei wneud. Mae sylwadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), sy’n ymateb i faterion eraill a godir yn eich adroddiad, i’w gweld yn yr atodiad.

Mae’r Arglwydd Ganghellor a minnau’n gwerthfawrogi’r gwaith amhrisiadwy y mae aelodau’r Byrddau Monitro Annibynnol yn ei wneud drwy’r holl ystâd, ac rydym yn hynod o ddiolchgar i chi am eich gwaith caled a’ch ymroddiad cyson ar ran CEF Caerdydd.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Timpson**
**Y Gweinidog Carchardai, Prawf a Lleihau Aildroseddu**

**CEF CAERDYDD: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MEDI 2023 – 31 AWST 2024**

**<u>Sylwadau HMPPS am faterion a godir yn yr adroddiad</u>**

**Y systemau gwresogi a dŵr**

Yn draddodiadol, mae'r gwaith i drin y systemau gwresogi i fod i gael ei wneud ym mis Medi/Hydref. Mae hyn wedi newid bellach, ac mae'r gwaith yn cael ei wneud ym mis Gorffennaf/Awst er mwyn trin y boeler gwresogi, a chwblhau unrhyw waith atgyweirio posibl, cyn i dymor diwedd yr hydref a'r gaeaf ddechrau. Dylai hyn leihau a lliniaru'r risg. Eleni, dim ond problemau gyda'r amseryddion a gafwyd, a phroblemau wrth geisio cadw cydbwysedd rhwng yr holl adeiniau.

Bu trafodaethau helaeth a gwnaed llawer o waith i ddatrys hyn. Mae ceisiadau am gyllid cyfalaf wedi'u cyflwyno i gael rhagor o danciau dŵr, a gwnaed cynigion i osod pympiau a phibelli uniongyrchol. Bydd hyn hefyd yn cael ei gofnodi ar y gofrestr ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r dyfodol, wrth ystyried buddsoddi yn y dyfodol. Er y bydd yr holl geisiadau gan y sefydliad yn cael eu hystyried, mae'r galwadau i wneud gwaith cynnal a chadw yn fwy o lawer na'r cyllid sydd ar gael. Gan hynny, ar ôl i gais am brosiect ddod i law, rhaid i HMPPS flaenoriaethu gwaith yn ofalus iawn er mwyn defnyddio'r cyllid hwnnw yn y ffordd orau, gan ganolbwyntio ar y risg i fywyd a'r risg i gapasiti a gwedduster.

Caiff y systemau gwresogi a dŵr eu trafod bob wythnos yn y cyfarfod rheoli cyfleusterau (Amey), gyda'r nod o sicrhau cysondeb wrth roi sylw i unrhyw fethiannau yn y system sydd wedi dod i'r amlwg.

**Hygyrchedd i bobl anabl a sgriniau yn y gell**

*Hygyrchedd i bobl anabl*

Yn y flwyddyn ariannol nesaf, mae'n fwriad trosi cell ar landin F2 yn gell i bobl sydd ag anawsterau symud, gan gynnwys cyfleusterau hylendid llawn a chawod yn y gell. Cell ddwbl fydd hon, gan roi cymorth hefyd ar ffurf cyd-letywr yn y gell i unrhyw un sydd ag anawsterau symud. Mae cell i bobl anabl eisoes ar landin F2 sy'n rhoi mynediad i'r capel, i addysg, i'r lle gweini ac i'r ystafell driniaeth. Mae mynediad gyda ramp, a mynediad heb risiau, hefyd wedi'u gosod lle mae hynny'n bosibl.

*Sgriniau yn y gell*

Mae'r cyfleusterau toiled wrthi'n cael eu diweddaru fel rhan o'r rhaglen gyson i adnewyddu celloedd, a hynny'n cynnwys gosod sgriniau parhaol ar lefel isel a gosod sgriniau llenni newydd.

**Gwaith allweddol**

Ar 24 Ionawr 2024, ysgrifennodd Phil Copple, Cyfarwyddwr Cyffredinol Gweithrediadau yn HMPPS, at Gyfarwyddwyr Gweithredol yr Ardaloedd, Cyfarwyddwyr y Grwpiau Carchardai, a Llywodraethwyr. Roedd y llythyr hwnnw'n egluro blaenoriaethau gweithredol HMPPS ar gyfer 2024/25 a'r disgwyliadau craidd cysylltiedig. Un o'r blaenoriaethu hyn fyddai gwella nifer ac ansawdd cyfundrefnau, gan gynnwys gwaith allweddol. I gefnogi hyn, mae proses newydd wedi'i chyflwyno i gynllunio cyfundrefnau a busnes.

Gwaith allweddol yw un o flaenoriaethau craidd HMPPS yn 2025/26. Y disgwyliad yw y bydd y gwaith allweddol a ddarperir yn cynyddu yn ystod y cylch hwn o Gynllunio Cyfundrefnau, a hynny'n cyd-fynd â Chynllun Rheoli Cyfundrefn pob sefydliad. Mae elfennau ychwanegol wedi'u rhoi yn y Templed Cynllunio Cyfundrefnau er mwyn gallu cyflawni hyn. Yn CEF Caerdydd, mae disgwyl cyflwyno proffiliau newydd ar 1 Ebrill 2025. Mae'r targed cenedlaethol bellach yn canolbwyntio ar ansawdd gwaith allweddol, ac mae CEF Caerdydd wedi cael sgôr gwyrdd am hynny.

**Carcharorion iechyd meddwl yn yr Uned Gofal a Gwahanu (CSU)**

Mae HMPPS wedi ymrwymo i wella canlyniadau iechyd meddwl i bobl sydd mewn cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol. Y nod yw sicrhau bod troseddwyr sydd ag anghenion iechyd meddwl acíwt yn cael cymorth amserol, a hynny yn y lleoliad mwyaf addas.

Rydyn ni'n cydnabod bod pobl sy'n agored i niwed i'w cael mewn carchardai, a'r rheini'n cyrraedd y trothwy i'w cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac angen eu trosglwyddo i'r ysbyty. Er hynny, maen nhw'n dal i wynebu oedi wrth geisio cael y gofal a'r driniaeth arbenigol y mae ei angen arnyn nhw.

Cyflwynwyd y Mesur Iechyd Meddwl i Senedd y Deyrnas Unedig ar 6 Tachwedd 2024. Mae'r Mesur yn cyflwyno diwygiadau hollbwysig i gefnogi pobl sydd â salwch meddwl difrifol ac sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Nod y Mesur yw galluogi pobl i gael gofal arbenigol i gleifion mewnol yn gyflymach, a sicrhau bod troseddwyr sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol yn gallu cael cymorth addas ac amserol yn y lleoliad mwyaf addas. Mae'r diwygiadau'n cyflwyno cyfyngiad amser statudol newydd o 28 diwrnod ar gyfer trosglwyddo cleifion sydd ag anhwylder meddyliol o'r carchar a mannau cadw eraill i'r ysbyty. Nod y cyfyngiad amser hwn, ynghyd â gwelliannau gweithredol, yw lleihau oedi diangen a galluogi pobl i gael triniaeth yn gyflymach.

Mae gan CEF Caerdydd bellach swydd niwroamrywiaeth yn yr Adran Dysgu a Sgiliau, a hynny ar gyfer gweithio â charcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Bydd y Llywodraethwr yn defnyddio'r asesiad o anghenion iechyd presennol/sy'n mynd rhagddo i amlygu'r diffygion o ran darpariaeth iechyd meddwl yn y carchar, a bydd yn defnyddio cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth i amlygu'r cymorth y mae ei angen yn y carchar ar gyfer carcharorion sydd ag anghenion iechyd meddwl.

**Cymheiriaid 'Here 2 Help' a hyfforddiant gwydnwch emosiynol i garcharorion**

Roedd y cymheiriaid 'Here 2 Help' a'r hyfforddiant gwydnwch emosiynol a roddwyd i garcharorion newydd yn gynlluniau a gyflwynwyd yn CEF Caerdydd fel rhan o brosiect 'ymgartrefu yn y carchar' y mae'r Tîm Diogelwch cenedlaethol wedi bod yn ei gefnogi mewn chwech o garchardai derbyn yng Nghymru a Lloegr. Y bwriad erioed oedd y byddai hwn yn brosiect peilot am gyfnod penodol i brofi ymarferoldeb yr ymyriadau hyn a pha mor effeithiol oedden nhw wrth wella canlyniadau diogelwch. Nid oes cyllid i barhau â'r prosiect y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Soniodd y gwerthusiad interim o'r prosiect am yr anawsterau a gafwyd wrth ei roi ar waith mewn rhai o'r carchardai eraill, ond roedd y gwerthusiad yn gadarnhaol, ar y cyfan, am ei effaith, ac yn enwedig am yr elfen a roddai gymorth gan gymheiriaid.

Mae disgwyl yr adroddiad terfynol yr haf hwn. Wedi hynny, byddwn ni'n rhannu'r adnoddau a ddatblygwyd yn ystod y prosiect, a'r hyn a ddysgwyd ohono, drwy holl ystâd y carchardai. Er bod mis Mawrth 2025 yn dynodi diwedd y prosiect ar ei ffurf bresennol, nid yw hyn o anghenraid yn golygu y bydd y gwaith yn CEF Caerdydd yn dod i ben, ac mae'r Llywodraethwr ar hyn o bryd yn ystyried yr opsiynau posibl ar gyfer parhau i gynnig y gwasanaeth cymorth gan gymheiriaid.

**Recriwtio o blith lleiafrifoedd ethnig lleol**

Mae HMPPS wedi ymrwymo i gyrraedd targed lle bydd 15.8% o'r holl staff a gaiff eu recriwtio yn dod o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Ar 30 Mehefin 2024, roedd 14.7% o staff HMPPS a ddatganodd eu hethnigrwydd yn dod o gefndir ethnig leiafrifol. Ar yr un dyddiad, roedd 12.7% o holl staff carchardai'r sector cyhoeddus, 24.0% o holl staff y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa, 13.2% o staff y pencadlys a staff cymorth rheng flaen, ac 18.1% o staff y Gwasanaeth Prawf yn dod o gefndir ethnig leiafrifol. Rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2024, roedd 39.6% o'r ymgeiswyr am swyddi Swyddogion Carchar a 34.9% o'r ymgeiswyr am swyddi Gradd Cymorth Gweithredol (OSG) yn dod o gefndiroedd ethnig leiafrifol, o'u cymharu â 34.8% o'r holl ymgeiswyr am swyddi HMPPS.

Bydd HMPPS yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu a gwerthuso perfformiad ymgeiswyr yn ystod prosesau recriwtio Swyddogion Carchar, er mwyn sicrhau bod y prosesau hynny'n deg ac yn effeithlon. Ni chanfuwyd fod unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw grŵp sy'n cymryd rhan ym mhrosesau recriwtio Swyddogion Carchar ar unrhyw adeg, gan gynnwys ymgeiswyr ethnig leiafrifol. Rydyn ni'n dal i recriwtio Swyddogion Carchar a swyddi OSG, gan deilwra ein deunydd marchnata a'r modd y byddwn yn gwneud swyddi'n atyniadol gyda'r nod o gael mwy o amrywiaeth ymhlith yr ymgeiswyr. Mae HMPPS yn targedu carchardai a rhanbarthau prawf lle ceir bwlch rhwng poblogaeth y gweithlu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'r boblogaeth weithio ranbarthol, a hynny drwy ddefnyddio dull recriwtio datblygedig. Mae hyn yn cynnwys ymwneud â'r gymuned amrywiol ehangach i wella gwybodaeth am yrfaoedd yn HMPPS; dylunio

a hwyluso digwyddiadau recriwtio i wneud swyddi'n atyniadol drwy blatfformau digidol; a neilltuo "cyfaill" i ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol i'w tywys drwy'r broses recriwtio.

Yn fwy cyffredinol, mae canllawiau ar gyfer recriwtio cynhwysol ar gael ar gyfer rheolwyr swyddi gwag, i'w helpu i wreiddio'r holl elfennau sy'n ymwneud â chynhwysiant ym mhob cam yn eu hymgyrchoedd recriwtio. At hynny, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi canllawiau am baneli cyfweld er mwyn helpu rheolwyr swyddi gwag i sicrhau bod eu prosesau sifftio a chyfweld yn gynhwysol. I wella'r ddealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r effaith y mae honno wedi'i chael ar recriwtio, mae holl staff Swyddogaethau Pobl y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd yn cael cynnig gweithdai Recriwtio Cynhwysol, gydag astudiaethau achos byw a sesiwn hyfforddiant undydd ar wahân am wneud penderfyniadau teg ac effeithiol wrth recriwtio.

**Gofal iechyd**

*Dadansoddi'r anghenion iechyd*

Dechreuodd yr asesiad o'r anghenion iechyd ar 6 Ionawr 2025 ac mae'n broses sy'n cymryd 14 wythnos.

*Staff iechyd meddwl ar benwythnosau*

Bydd holl fodel y gweithlu'n cael ei adolygu wrth lunio adroddiad y dadansoddiad o'r anghenion iechyd.

*Cwynion am bresgripsiynau*

Bydd y Pennaeth Gofal Iechyd yn parhau i fonitro ceisiadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau a phresgripsiynau. Y thema yn y ceisiadau yw dynion sy'n gwneud cais am feddyginiaeth nad ydyn nhw wedi cael presgripsiwn ar ei chyfer yn y gymuned. Gan hynny, pan fydd y tîm yn ceisio cysoni'r feddyginiaeth, nid ydyn nhw'n gallu gwneud hyn yn gywir. Bydd angen i feddygon teulu adolygu'r feddyginiaeth er mwyn rhoi presgripsiwn newydd. Mae'r meddygon teulu wedi dilyn dull pragmatig o weithio, lle bydd yr hyn a gafodd ei bresgripsiynu i ddynion yn y gymuned yn parhau yn CEF Caerdydd, gan gynnwys meddyginiaeth ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl.

*Y polisi brysbennu ar gyfer iechyd meddwl*

Bwriedir parhau i adolygu'r arfer newydd a gyflwynwyd, sef dim ond brysbennu'r unigolion hynny sy'n gofyn am gael gweld staff iechyd meddwl yn ystod y broses sgrinio iechyd meddwl yn y dderbynfa, neu'r ail broses sgrinio. Bydden ni'n hoffi sicrhau'r Bwrdd bod pob dyn yn cael ei holi am ei iechyd meddwl yn ystod y broses sgrinio gyntaf neu'r ail un. Hefyd, isel iawn yw'r trothwy sy'n caniatáu i unrhyw aelod o staff gyfeirio pobl at y tîm iechyd meddwl ar gyfer cynnal adolygiad.